



Bwletin GwE

CYDWEITHIO

DYSGU

LLWYDDO



#Diolch



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Cynnig Proffesiynol GwE ar G6

Mae Cynnig GwE ar G6 yn cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn ysgol.

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

11/05/2022-22/07/2022	Dyddiad	Cyfrwng
Lefel Sylfaen mewn Hyfforddiant Therapi Gwneud Llun a Siarad	12/05/2022	Saesneg
Ieithoedd Rhyngwladol- Sector Cynradd - Sesiwn galw heibio Dyfodol Byd-eang GwE	12/05/2022	Cymraeg
ANG: Hyfforddiant Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gyfer ANGoN (cyfrwng Cymraeg)	17/05/2022	Cymraeg
ANG: Hyfforddiant Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gyfer ANGoN (cyfrwng Saesneg)	20/05/2022	Saesneg
Ieithoedd Rhyngwladol- Sector Cynradd - Sesiwn hyfforddi: Institut français	23/05/2022	Saesneg
ANG: Hyfforddiant ar gyfer athrawon sy'n gweithio gyda dysgwyr 3-8 oed (cyfrwng Cymraeg)	24/05/2022	Cymraeg
ANG: Hyfforddiant ar gyfer athrawon sy'n gweithio gyda dysgwyr 3-8 oed (cyfrwng Saesneg)	26/05/2022	Saesneg
Dylanwad Cadarnhaol Chwarae	27/06/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	12/07/2022	Saesneg
Dysgu digidol ar waith gyda Nina Jackson	15/07/2022	Saesneg
Trwyddedi Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn	20/07/2022	Ddwyieithog
Gwahaniaethu gyda Mike Gershon	21/07/2022	Saesneg
"Sut i ddefnyddio trafodaeth" gyda Mike Gershon	21/07/2022	Saesneg



Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

RHAGLENNI CENEDLAETHOL

Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Cynorthwyr Addysgu

CYFLWYNIAD I CWRICWLWM I GYMRU

Cynhelir dwy sesiwn ar-lein fel rhan o'r rhaglen, a gofynnir i chi fynychu'r ddwy sesiwn.

Ceir manylion pellach yn y Dosbarth Google ar gyfer Cynorthwyr Addysgu.

Ffurflen Gofrestru: <https://forms.office.com/r/ijMRxxs2ev>

Ar ôl cofrestru, cewch fanylion y cyfarfodydd TEAMS.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Wendy Williams wendywilliams@gwegogledd.cymru

SESIWN 1







09/05/2022	09:30-11:30
11/05/2022	15:00-17:00
12/05/2022	13:15-15:15

SESIWN 2

23/05/2022	13:15-15:15
25/05/2022	09:30-11:30
25/05/2022	15:00-17:00

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Hyfforddiant ANG ar gyfer athrawon sy'n gweithio gyda dysgwyr 3 - 8 oed 







 Cymraeg	 24/05/2022	 09:15 - 12:00
 Saesneg	 26/05/2022	 09:15 - 12:00

Ffocws – Canllawiau Cwricwlwm i Gymru – Galluogi Dysgu

Sut i gynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb a'r defnydd effeithiol o'r ddarpariaeth yn yr awyr agored

Ewch trwy G6 i gadw lle ar y sesiwn Zoom hwn

Hyfforddiant Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gyfer ANGon

 Cymraeg	 17/05/2022	 09:30-11:30
 Saesneg	 20/05/2022	 09:30-11:30

Ewch trwy G6 i gadw lle ar y sesiwn Zoom/Teams hwn

Aseidiadau Personol 2022

Negeseuon Rhanbarthol - Dechrau Tymor yr Haf 2022

[Cliciwch yma](#) am yr wybodaeth ddiweddaraf.

Datganiad Ysgrifenedig: Aseidiadau Personol Rhifedd [Rhesymu]

Mae asesiad personol Rhifedd (Rhesymu) ar-lein newydd ar gael bellach, a fydd yn helpu i sicrhau safonau uchel ac uchelgeisiau i bawb. Hwn yw'r olaf yn y casgliad o aseidiadau sydd ar gael i athrawon eu defnyddio fel y mynnant drwy'r flwyddyn, a hynny er mwyn cefnogi a llywio eu haddysgu a chynllunio cynnydd mewn darllen a rhifedd.

Manylion llawn ar gael [yma](#).

Dyfodol Byd-eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

Am ragor o wybodaeth neu am gymorth gyda'r eitemau isod, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Canolfan Cefnogaeth GwE: [Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/>

GWYBODAETH I YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD:

https://www.gwegogledd.cymru/itm_mfl/

CYLCHLYTHYR EBRILL/MAI

Cynradd - <https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2022/05/Newyddlen-Cynradd-Dyfodol-Byd-Eang-GwE-Ebrill-Mai-2022.pdf>

Uwchradd - <https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2022/05/Newyddlen-Uwchradd-Dyfodol-Byd-Eang-GwE-Ebrill-Mai-2022.pdf>



Gweminar Rhwydwaith STEM Gogledd - 19/05/22, 16:00 - 17:00

'**Dal Talent Drwy gael Gwared ar Rwystrau**' - Y pedwerydd mewn rhaglen o 5 sesiwn ar gyfer athrawon STEM a Chynllunwyr Cwricwlwm sydd â diddordeb mewn datblygu STEM yn eu hysgolion neu golegau. Bydd Technocamps, EESW a STEM Gogledd yn cyflwyno syniadau yn y sesiwn hwn. Bydd y weminar yn darparu cymorth ymarferol i helpu ysgolion i hybu peirianeg, ffiseg a TGCh gyda genethod

Gellir gofrestru ar Eventbrite drwy'r ddolen hon — <https://www.eventbrite.com/e/333515603147>

Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth.



Addysg Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith – Dysgu Proffesiynol ar gyfer ysgolion cynradd a lleoliadau

Trosolwg o ganllawiau statudol gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a'r offer a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi ysgolion a lleoliadau i wreiddio gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ar draws y Meysydd Dysgu.

Dydd Mawrth 17/05/22 - 15:45-16:45 **Cyfrwng Cymraeg**

Anfonir dolen i'r cyflwyniad ar wahân at ysgolion yn fuan.



Gyrfa Cymru
Careers Wales



GWYBODAETH AC ARWEINIAD LLYWODRAETH CYMRU

Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol

Mae'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ar y cyd â Llywodraeth Cymru. I gael rhagor o fanylion ar sut gallwch chi gyfrannu at y gwaith i gyd-awduru'r Hawl, gweler y ddolen isod.

[Hawl ar gyfer Dysgu Proffesiynol Ffurflen archebu - Cyfarfodydd ag ysgolion \(office.com\)](#)



GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

Awn am Sero 2030

YMUNWCH Â'R YSGOLION SY'N BRWYDRO YN ERBYN NEWID HINSAWDD.

Rhagor o fanylion i'w cael [yma](#). Cofrestrwch eich ysgol ar www.letsgozero.org/cy/



Sesiynau Briffio Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i Arweinwyr Ysgol

Mae'n bleser gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru gyhoeddi rownd newydd o Gynllun arloesol Ysgolion Creadigol Arweiniol.

Mae manylion am y sesiynau briffio ac am sut i wneud cais i gymryd rhan ar gael trwy ddilyn y ddolen hon - <https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/sesiynau-briffio-cynllun-ysgolion-creadigol-arweiniol-ar-gyfer>

Dyddiad cau: 17:00 ar 31/05/22

MA Addysg [Cymru]

PRIFYSGOL GLYNDŴR, WRECSAM

Mae gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam 50 o lefydd wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer y rhaglen astudio gyffrous hon.

Am ragor o fanylion am y cyfleoedd a ariennir, [cliciwch yma](#) neu cysylltwch â Kelly Smith, Arweinydd y Rhaglen [K.Smith2@glyndwr.ac.uk].

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru



Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (AGAA) yn chwilio am uwch arweinwyr i fod yn Gymdeithion yr AGAA.

Dyddiad cau: 20/05/22 am 12:00

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth: [Dewch yn Gydymaith - National Leadership Wales \(nael.cymru\)](#)

Hyfforddiant am Ddim ar Lwybr Arfordir Cymru



Hyfforddiant am ddim a £200 tuag at gostau Teithio gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Am fwy o fanylion cliciwch [yma](#)



Cynhadledd e-sgol 2022 - Ysbrydoli, Ysgogi, Ymgysylltu



Cynhelir y gynhadledd hon ar 07/07/22. Am fwy o wybodaeth a sut i gofrestru cliciwch [yma](#).

Diwrnod Cenedlaethol Diolch i Athrawon



Mi fydd diwrnod Cenedlaethol Diolch i Athrawon yn cael ei gynnal ar 26/05/22.

Am ragor o fanylion cliciwch [yma](#).